

Ysgol Brynrefail

Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AD



Pennaeth/Headteacher:

Mr Arwyn Williams, BA

☎ (01286) 672381

📠 (01286) 672066

✉ swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk

🌐 www.brynrefail.gwynedd.sch.uk

Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

13eg o Orffennaf 2016

Gyda diwedd y flwyddyn ysgol yn prysur agosáu cysylltaf er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

Rydym wedi bod yn cynllunio ar gyfer y flwyddyn newydd ac un o'n prif flaenoriaethau yw rhoi sylw pellach i ansawdd yr addysgu a dysgu er mwyn sicrhau profiadau o'r ansawdd uchaf gorau i'ch plentyn. Gan i ni drefnu rhaglen o hyfforddiant arbenigol yn eithaf diweddar, mae'n rhaid i ni newid y dyddiau hyfforddiant mewn swydd ar gyfer y flwyddyn. Bydd pum diwrnod hyfforddiant gyda phedwar o'r rhain yn y tymor cyntaf a'r pumed yn Nhyrnor yr Haf.

1. Dydd Iau, Medi 1af
2. Dydd Iau, Medi 22ain
3. Dydd Gwener, Medi 23ain
4. Dydd Gwener, Rhagfyr 9fed
5. Dydd Llun, Gorffennaf 3ydd

Golygai hyn mai diwrnod cyntaf y flwyddyn i ddisgyblion fydd Dydd Gwener, Medi'r 2il.

Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleusdra mae'r uchod yn ei greu i chi fel rhieni, ond hyderwn y bydd y buddiannau a ddaw yn sgîl y hyfforddiant yn gorbwyso hyn.

Hoffwn gymryd y cyfle yma hefyd i bwysleisio ein disgwyliadau o ran y wisg ysgol.

- Crys polo gwyn - gyda logo'r ysgol arno
- Crys chwys gwyrdd tywyll - gyda logo'r Ysgol arno
- Trowsus plaen du - (nid jeans) neu *sgert ysgol blaen ddu
- Trowsus bach (shorts) plaen du - Tymor yr Haf yn unig
- Sanau plaen tywyll neu * 'tights' plaen tywyll
- Esgidiau plaen du (nid trainers)
- Côt dywyll blaen

Gemwaith - am resymau diogelwch, mae disgwyl i ddisgyblion beidio â gwisgo gemwaith ond fe ganiateir i ddisgyblion wisgo un 'stud' yn unig ym mhob clust os dymunir. Mae'n bwysig bod pob dilledyn ag enw'r disgybl yn glir arno.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cydweithrediad ac i ddymuno'n dda i chi a'ch teuluoedd dros gyfnod y gwyliau.

Yn gywir,

Arwyn Williams

Pennaeth